Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru / North Wales Fire and Rescue Service

# PEIRIANNYDD RHWYDWAITH

**Adran Technoleg Gwybodaeth, Conwy**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**GTAGC Gradd 06 06 £33,156 to £36,202 y flwyddyn**
**(Mae hyn yn cynnwys lwfans o 8.5% am fod ar alwad y tu allan i oriau arferol)**

Rydym yn chwilio am Beiriannydd Rhwydwaith i ymuno â'n Hadran TGCh brysur, sydd fel arfer wedi'i lleoli yn ein swyddfeydd yng Nghonwy.

Bydd y Peiriannydd Technegol yn adrodd yn ôl i'r Rheolwr Technegol a cyn sicrhau bod rhwydwaith TGCH a systemau telegyfathrebu yn gweithio'n iawn o ddydd i ddydd trwy ddarparu gwybodaeth dechnegol a chefnogaeth. Byddwch yn gweithio mewn amgylchedd heriol lle mae'n rhaid bod yn fanwl gywir, byddwch hefyd yn helpu gyda gosodiadau, ail ddilysu, atgyweirio ac ail ddylunio'r rhwydwaith a'r isadeiledd telegyfathrebu, bod yn bwynt cyswllt cyntaf a darparu cyfarwyddyd a chefnogaeth arbenigol i gydweithwyr a defnyddwyr.

Bydd rhaid i'r sawl a benodir fod yn frwdfrydig ac awyddus i ddysgu a datblygu eu sgiliau. Trwy ddulliau datrys problemau manwl byddant yn cymryd cyfrifoldeb dros dasgau a'u cwblhau.

Bydd angen i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer ddangos y sgiliau canlynol (gyda thystiolaeth), fel yr amlinellir yn y disgrifiad o'r swydd ac ym manylion y person:

- Profiad gweithredol o rwydweithiau i safon CCNA neu gyfatebol
- Profiad o weithio yn adran Technoleg Gwybodaeth
- Sylw da i fanylion ac agwedd drefnus at ddatrys problemau
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol a hyfforddi eraill
- Y gallu i gwblhau gwaith ar amser a gweithio dan bwysau.
- Profiad o fethodoleg ITIL yn ddymunol
- Mae profiad o weithrediad systemau Solarwinds, Microsoft Server ac Active Directory yn hynod ddymunol
- Trwydded yrru lawn y DU a'r gallu i deithio pan a phryd fi angen
- Amodol ar wiriadau dilysu NPV
- Gallu cynnal sgwrs syml yn y Gymraeg hyd at Lefel 2 - os nad ydych chi'n gallu arddangos hyn wrth ymgeisiom bydd rhaid ei gyflawni yn ystod cyfnod prawf o 12 mis, gyda chefnogaeth ar gael lle bo'n addas.

Am ragor o wybodaeth am y rolau hyn, yn cynnwys swydd ddisgrifiadau a phecynnau cais, ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru neu anfonwch e-bost i: recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 09:00yb ar 19/05/25**

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau / PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT / CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG — EMPLOYER RECOGNITION SCHEME / CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR — GOLD AWARD 2022 / GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn 0808 80 10 800 ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost

Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre — Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân / Fire Pride Allies

safecall — Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Cedwir at y dyddiad cau yn llym ac ni fydd unrhyw eithriadau